**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU**
**Tîm Rheoli Risg Gweithredol**

# Swyddog Hydwythedd a Chynllunio

**GRADD 9**
**CYFLOG: £32,076 - £33,945**
**37 awr yr wythnos**

Mae'r swydd wag uchod wedi codi yn yr Adran Rheoli Risg Weithredol ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Llantrisant, Rhondda Cynon Taf, CF72 8LX, ac mae'r swydd barhaol. Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ddatblygu "Parhad Busnes" ymhellach o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru trwy gydlynu, profi a dilysu rhaglenni ymarfer rheoli cyfredol.

Hefyd, bydd gofyn i ddeiliad y swydd gynorthwyo â rheoli'r tîm Hydwythedd, gwneud cyflwyniadau i Uwch Swyddogion ac Asiantaethau Partner a darparu cyngor a chefnogaeth gyffredinol ar gyfer pob agwedd o Gynllunio Argyfwng.

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd a bydd polisi gweithio'n hyblyg mewn grym. Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru. Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol a bydd gofyn am wiriad trwydded gyrru.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn destun gwiriad uwch gan y Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Gellir lawrlwytho Ffurflen Gais, Manyleb Person a Swydd Ddisgrifiad o'r Dudalen Swyddi Gwag Cyfredol ar y Fewnrwyd ar gyfer ymgeiswyr mewnol neu'n allanol mae'r dogfennau hyn i'w gweld ar dudalen Gweithio i ni/swyddi gweigion diweddaraf ein gwefan yn www .decymru-tan.gov.uk. Nodwch nad ydym yn derbyn ffurflenni CV.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **12:00 ganol dydd, Dydd Gwener y 3ydd Mai 2024.**

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r swydd hon, mae croeso i chi gysylltu â Rheolwr Cyffredinol Peter Howard-Jones (Arweinydd Hydwythdedd a Chynllunio GTADC):
p-howardjones@decymru-tan.gov.uk

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yng ngham y rhestr fer yn derbyn cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweliadau). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd/neu Gyfieithu ar y Pryd.

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.**

Living Wage Employer

disability confident COMMITTED